

# Ehangu Cyfranogiad
## Adroddiad Blynyddol 23

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

**Cydgerdded gyda'n gilydd**
caerdydd.ac.uk



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Helo pawb | 4 |
| Ysgolion haf | 5 |
| Camu 'Mlaen | 6 |
| Llwybrau at y Gyfraith | 8 |
| Llwybrau at Beirianneg | 11 |
| Ymddiriedolaeth Sutton | 12 |
| ANELU | 14 |
| Darganfod | 16 |
| Engage | 18 |
| Parent Power | 19 |
| Ymestyn yn Ehangach | 20 |
| Cynllun Grantiau Bach | 22 |
| Sioe Deithiol AU | 23 |
| Polisi derbyniadau cyd-destunol | 26 |
| Diwrnodau Agored | 27 |
| Ehangu Cyfranogiad yn yr ysgolion academaidd | 28 |
| Llysgenhadon Myfyrwyr a Myfyrwyr sy'n nterniaid | 32 |
| Datblygiadau ar y gweill | 36 |
| Myfyrdodau | 37 |



Ar gyfer cwestiynau cyffredinol neu gwestiynau ynghylch Ehangu Cyfranogiad, cysylltwch â ni:

Ffôn: **44 (0)29 2087 4455**

Ebost: **outreach@cardiff.ac.uk**

X: **@CU_Outreach**

**www.caerdydd.ac.uk**


# Rhagair


**Claire Morgan**
Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr




## Ym Mhrifysgol Caerdydd rydym yn falch o fod yn brifysgol ddinesig a byd-eang sy'n cydnabod y manteision y gall cymuned amrywiol o fyfyrwyr eu rhoi.

Rydym yn y trydydd safle ymhlith prifysgolion Grŵp Russell o ran canran y myfyrwyr israddedig o gymdogaethau cyfranogiad isel ac yn y pumed safle yng Ngrŵp Russell am nifer yr israddedigion o ysgolion gwladol (HESA 2020/21).

Mae gweithgareddau ehangu cyfranogiad yn digwydd ledled y Brifysgol, boed yn Fentora Ffiseg, yn rhaglenni oedolion sy'n dysgu neu weithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Yn Ysgol Haf preswyl lwyddiannus y Brifysgol bydd cannoedd o fyfyrwyr oedran ysgol yn cael y cyfle i brofi manteision a llawenydd bywyd myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd.

O dan gynllun Llywodraethwyr Ysgol mae mwy na chant o staff a myfyrwyr yn gweithio ar y cyd ag Ysgolion yn ein cymunedau lleol; gan gynnig gwybodaeth ac arbenigedd o ystod eang o ddisgyblaethau a gwasanaethau proffesiynol.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos y math o sefydliad rydym yn falch o fod; sef, un sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â thlodi, cyrhaeddiad addysgol, symudedd cymdeithasol, yr iaith Gymraeg, a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae Strategaeth Ehangu Cyfranogiad 2020-2025 y Brifysgol yn adlewyrchu ein huchelgais.

Mae ein gweledigaeth yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i gefnogi a dathlu amrywiaeth, creu cymuned sy'n agored ac yn gynhwysol, yn ogystal â rhoi myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Mae gan ein strategaeth Ehangu Cyfranogiad bedwar prif nod:

1. Ymgysylltu â phobl o bob cenhedlaeth a'u hysbrydoli i ystyried addysg uwch yn opsiwn realistig a chyraeddadwy.
2. Denu a recriwtio myfyrwyr sydd â photensial academaidd, waeth beth fo'u cefndir neu'u profiadau personol.
3. 3. Galluogi pobl i addasu'n llwyddiannus i'r brifysgol a meithrin profiadau rhagorol a chefnogol i'r myfyrwyr.
4. Meithrin ac annog dyfodol hyderus a llwyddiannus i bawb.

Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn edrych dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn cyfleu ac yn dathlu'r cynnydd y mae timau ar draws y Brifysgol wedi'i gyflawni i sicrhau bod Prifysgol Caerdydd yn rhywle lle gall pawb ddysgu.

# Helo pawb

**Rachel Leighton**
Pennaeth Ehangu Cyfranogiad

Ym Mhrifysgol Caerdydd, credwn ym mhŵer addysg i drawsnewid bywydau; ac na ddylai'r heriau y mae dysgwyr yn eu hwynebu yn y gymdeithas ehangach fod yn rhwystrau i gyflawni eu potensial llawn a chael mynediad at yrfaoedd ystyrlon a boddhau.



Trwy ein gwaith, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob myfyriwr, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael eu hysbrydoli i wneud cais i brifysgol ac astudio, llwyddo a ffynnu ym Mhrifysgol Caerdydd a thu hwnt.

Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at lwyddiannau prosiectau Ehangu Cyfranogiad (WP) sydd wedi'u cyflawni eleni. Mae'n arddangos gweithgaredd y tîm WP, yn ogystal â gwaith sy'n cael ei gyflawni mewn ysgolion academaidd.



# Ysgolion Haf

Yn 2023 dychwelodd ysgolion haf wyneb yn wyneb a phreswyl, ac roeddem wrth ein bodd yn croesawu 175 o oedolion sy'n ddysgwyr a phobl ifanc i'n rhaglenni haf.



Ysgolion Haf yw un o'r prosiectau pwysicaf y mae'r tîm WP yn eu darparu bob blwyddyn; maen nhw'n newid bywydau yn llythrennol. Bob blwyddyn, mae ein cyfranogwyr Ysgol Haf yn dysgu ac yn datblygu sgiliau newydd, maen nhw'n gwneud ffrindiau newydd ac yn cael hwyl. Mae cyfranogwyr ein Hysgol Haf yn gwthio eu hunain allan o'u parth cysurus ac yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd, gan adeiladu gwytnwch a hyder. Pan fydd ein cyfranogwyr yn graddio o Ysgolion Haf, maent yn falch o siarad am eu gwaith a'u cyflawniadau gyda rhieni a gwarcheidwaid yr un mor falch.

**20**
Nifer y diwrnodau o ymgysylltu a ddarparwyd

**23**
Nifer y sesiynau sgiliau a chyngor a ddarparwyd

**19**
Nifer y sesiynau academaidd a blasu a ddarparwyd

**59**
Llysgenhadon Myfyrwyr yn cael eu cyflogi

**14**
Gweithgareddau cymdeithasol

**175**
Cyfranogion

# Camu 'Mlaen i Brifysgol

Yn 2023, gwnaethom groesawu 174 o ymgeiswyr llwyddiannus i achlysur lansio ein rhaglen Camu 'Mlaen i Brifysgol. Cymerodd cyfranogwyr y rhaglen ran mewn chwe gweithdy mewn meysydd academaidd, gan gynnwys: Iechyd a Lles, Y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Rhoddodd Ysgol Haf Camu 'Mlaen 2023 le diogel i 57 o bobl ifanc wneud ffrindiau newydd a dysgu am fywyd myfyrwyr. Nod cymysgedd o weithgareddau cymdeithasol ac academaidd oedd meithrin hyder cyfranogwyr, a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i lwyddo yn y brifysgol. Dros dridiau, bu'r cyfranogwyr yn cydweithio ar brosiect ymchwil academaidd gyda phynciau yn amrywio o oblygiadau hanesyddol a chyfreithiol ymyriadau meddygol i ystyriaethau moesegol a seicolegol technolegau newydd. Cynigiwyd cyfres o sesiynau blasu academaidd i'r cyfranogwyr, gan gynnwys pynciau mor amrywiol â nofelau graffig, cylch bywyd sêr a sgiliau codio.

Cafodd y bobl ifanc hefyd brofi ochr gymdeithasol bywyd myfyrwyr trwy aros mewn neuaddau preswyl yn y brifysgol, a mwynhau noson gwis a pharti pitsa yn y parc.



**Cofrestrodd 39 o gyfranogwyr Camu 'Mlaen blaenorol ar gwrs gradd ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2023.**

| Datganiad | cyn | ar ôl |
|---|---|---|
| Byddwn i'n gallu ymdopi â lefel yr astudio sydd ei hangen yn y brifysgol | 86% | 96% |
| Rwy'n ymwybodol o'r dulliau dysgu ac addysgu yn y brifysgol | 80% | 94% |
| Rwy'n teimlo y byddwn i'n dod ymlaen yn dda â phobl eraill yn y Brifysgol | 89% | 96% |
| Mae'r brifysgol ar gyfer pobl fel fi | 87% | 96% |

> "Gwnes i gofrestru ar gyfer Camu 'Mlaen gan fy mod i eisiau cynyddu fy hyder, ond galla i ddweud fy mod i hefyd wedi datblygu rhai sgiliau gwaith tîm anhygoel a'r gred y bydda i'n ffynnu'n gymdeithasol yn y brifysgol."
>
> Cyfranogwr Camu 'Mlaen


# Llwybrau at y Gyfraith

**Cofrestrodd saith o gyfranogwyr blaenorol Llwybr ar Gyfraith ar gyfer gradd ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2023.**

Cyflwynir Llwybrau at y Gyfraith mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Sutton, elusen symudedd cymdeithasol, ac fe'i cefnogir gan Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth.

Mae'r rhaglen yn cynnig y canlynol i fyfyrwyr Blwyddyn 12 sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y Gyfraith: gweithdai academaidd ac ymarferol, teithiau maes diwydiannol, lleoliadau profiad gwaith a chynadleddau cenedlaethol, i gefnogi eu taith i radd yn y gyfraith. Yn 2023, ymgysylltodd cyfranogwyr â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant ar daith i'r Deml Fewnol yn Llundain.







**126**
Nifer y cyfranogwyr

**18**
Oriau ymgysylltu fesul cyfranogwr



**3**
Nifer y teithiau maes

Rwy'n teimlo y byddwn i'n dod ymlaen yn dda â phobl eraill yn y Brifysgol

| cyn | ar ôl |
|---|---|
| **78%** | **100%** |

Mae gen i'r gallu academaidd i lwyddo yn y brifysgol

| cyn | ar ôl |
|---|---|
| **83%** | **100%** |

Rwy'n teimlo'n hyderus fy mod yn gallu cyflwyno cais prifysgol cryf

| cyn | ar ôl |
|---|---|
| **48%** | **94%** |




> "Newidiodd y cyfle hwn fy mywyd, ac mae wedi fy helpu i gael mwy o gyfleoedd yn fy narpar brifysgolion ac yn gyffredinol, mae wedi gwella fy sgiliau addysg a rhyngbersonol."
>
> **April,** Llwybrau at y Gyfraith 2021-2023



# Llwybrau at Beirianneg

Cyflwynir Llwybrau at Beirianneg mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Sutton ac fe'i cefnogir gan yr Ysgol Peirianneg.



Mae'r rhaglen yn cynnig y canlynol i fyfyrwyr Blwyddyn 12 sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes Peirianneg: gweithdai academaidd ac ymarferol, teithiau maes diwydiannol a lleoliadau profiad gwaith, i gefnogi eu taith i radd yn y beirianneg. Yn 2023, ymgysylltodd cyfranogwyr â gweithwyr proffesiynol yn y y diwydiant ar deithiau i BA, ARUP a Mercedes.

| 27 | 378 | 4 |
| --- | --- | --- |
| Nifer y cyfranogwyr | Oriau ymgysylltu | Nifer y teithiau maes |

# Ymddiriedolaeth Sutton

## Ysgol Haf Meddygaeth a Deintyddiaeth

Darparodd yr Ysgol Haf hon bedwar diwrnod o weithgareddau ar gyfer 72 o ddarpar fyfyrwyr Meddygaeth a Deintyddiaeth.

Cafodd cyfranogwyr y cyfle i brofi sut beth fyddai bywyd yn astudio'r pynciau hyn ym Mhrifysgol Caerdydd, trwy weithgareddau sgiliau ymarferol a chlinigol fel, cymryd gwaed ac argraffu sythwyr dannedd deintyddol yn 3D. Gwnaeth yr Ysgol Haf hefyd daflu goleuni ar y broses derbyn a chyfweld i gyfranogwyr trwy sesiwn holi ac ateb ac ymarfer sgiliau mewn ffug gyfweliadau gyda gweithwyr meddygol proffesiynol go iawn a myfyrwyr presennol Prifysgol Caerdydd. 2023 oedd y flwyddyn gyntaf i Ddeintyddiaeth fod â'i rhaglen o weithgareddau ei hun, gan ddarparu sesiynau cyngor a gwybodaeth penodol, a phrofiad gwaith mewn ysbyty deintyddol, ar gyfer 20 o bobl ifanc. Hefyd, cafodd cyfranogwyr brofiad o ochr gymdeithasol bywyd myfyrwyr gyda thaith i Fae Caerdydd.







**Ymunodd chwe unigolyn a oedd wedi cymryd rhan yn ysgolion haf meddygol Ymddiriedolaeth Sutton yn flaenorol â Phrifysgol Caerdydd yn 2023.**

**85%**

Cafodd ymatebwyr i'r arolwg newid cadarnhaol i'w canfyddiad o Brifysgol Caerdydd

**89%**

Nododd ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn teimlo'n hyderus wrth baratoi cais am feddygaeth neu ddeintyddiaeth

**93%**

Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo eu bod wedi dysgu llawer trwy fynychu'r ysgol haf

**91%**

Nododd ymatebwyr i'r arolwg fod mynychu'r ysgol haf wedi eu cymell ar gyfer yr ysgol

> "Y peth mwyaf a ddysgais yn yr ysgol haf yw bod yn ddilys drwy gydol y broses ymgeisio gyfan.
>
> Mae fy hunanhyder wedi gwella, yn ogystal â'm hyder wrth wneud cais am feddygaeth"
>
> Cyfranogwr Ysgol Haf Ymddiriedolaeth Sutton

# ANELU

Dyfarnwyd statws Prifysgol Noddfa i Brifysgol Caerdydd.

Mae wedi ymrwymo i feithrin diwylliant croesawgar ac ymdeimlad o berthyn i'r gymuned sy'n ceisio noddfa. Mae'r rhaglen Anelu yn darparu cyfleoedd i geiswyr noddfa ddysgu am addysg uwch yn y DU.




## Diwrnod Agored Anelu

Yn haf 2023, cynigiodd Diwrnod Agored Anelu wybodaeth a chanllawiau ynghylch y brifysgol wedi'u teilwra ar gyfer ceiswyr noddfa, ac roedd yn cynnwys siaradwyr gwadd o Let's Teach, Glitter Cymru a'r Groes Goch, yn ogystal â sesiynau gwybodaeth ar UCAS a chyrsiau rhan-amser.

**16**
Nifer y gwledydd a gynrychiolwyd

**12**
Yr ieithoedd a siaradwyd

**74**
Mynychwyr

**65%**
o'r mynychwyr a oedd yn teimlo bod y brifysgol 'ar eu cyfer' **cyn** y Diwrnod Agored

**83%**
o'r mynychwyr a oedd yn teimlo bod y brifysgol 'ar eu cyfer' **ar ôl** y Diwrnod Agored





## Ysgol Haf Anelu

Rhoddodd Ysgol Haf Anelu gyfle i 27 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches fynychu rhaglen a gynlluniwyd i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Saesneg, hyder a mynd i'r afael â rhai o'r heriau wrth ymgeisio i'r brifysgol. Roedd y rhaglen yn cynnwys dosbarthiadau Saesneg dyddiol, taith o amgylch y campws a sesiynau blasu cyrsiau cymunedol lefel 3. Roedd sesiynau blasu yn cynnwys: rheoli prosiectau, dechrau busnes a system wleidyddol Cymru. Roedd Ysgol Haf Anelu yn bartneriaeth gyda Dysgu Gydol Oes a'r Rhaglen Iaith Saesneg.



**50**
Nifer yr oriau o ymgysylltu a ddarparwyd

**13**
Aeth cyfranogwyr ymlaen i raglenni lefel 3 a 4 yn y brifysgol

**91%**
Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y prosiect wedi gwella eu sgiliau Saesneg

> "Mae Anelu wedi gwella fy hyder oherwydd bod yr athrawon yn y sesiynau academaidd a'r staff eraill wedi creu amgylchedd cyfforddus iawn i ni ofyn cymaint o gwestiynau ag yr oedden ni eisiau. Roedd y cyfle i wneud gwaith grŵp o fewn y sesiynau hyn hefyd yn helpu gyda fy hyder ac wedi fy helpu i ffurfio cyfeillgarwch.
>
> **Malaika**, cyfranogwr ysgol haf Anelu

> Mae Aspire yn agor eich llygaid i'r cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd ar gael i gael mynediad i addysg uwch, byddwn yn ei argymell i bob ffoadur sydd am fynd i mewn i addysg uwch yn y DU.
>
> **Hamed**, cyfranogwr ysgol haf Anelu

> Drwy ddod i Anelu, rwyf wedi gwella fy sgiliau iaith Saesneg ac rwyf wedi cael fy ysbrydoli i astudio gradd academaidd. Rwyf wedi ehangu fy ngwybodaeth academaidd ond rwyf hefyd wedi cael fy annog ac wedi dysgu sut y gallaf gael mynediad i addysg uwch yn y DU, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i mi.
>
> **Abdullateef**, cyfranogwr ysgol haf Anelu."

# Darganfod

Mae'r rhaglen Darganfod ar gyfer pobl ifanc â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth sydd â diddordeb mewn dod i'r brifysgol.

Mae Discovery yn goleuo mynychwyr ynghylch bywyd yn y brifysgol ac yn eu cefnogi i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a hyder mewn lleoliad hamddenol a chefnogol. Yn 2023, croesawom 33 o bobl ifanc i'r campws ar gyfer deg sesiwn dan arweiniad cyfranogwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar gyfranogwyr ar gyfer y brifysgol a thu hwnt, gan gynnwys cyllidebu a lles.

**84%**
Y rhai a oedd yn cytuno'n gryf y byddent yn hoffi mynd i'r brifysgol ar ôl mynychu Darganfod

**69%**
Y rhai a ddysgodd sgiliau newydd o sesiynau Darganfod

**64%**
Hyder cyfranogwyr yn eu potensial i fynd i'r brifysgol **cyn** Darganfod

**85%**
Hyder cyfranogwyr yn eu potensial i fynd i'r brifysgol **ar ôl** Darganfod

"Fe wnaeth Darganfod fy helpu i baratoi ar gyfer y brifysgol trwy fy arfogi â'r wybodaeth werthfawr bod pob eiliad yn cyfrif ac i weithio'n galed, ond ar gyflymder ac o'r fan honno, rwyf wedi gallu rheoli fy hun yn well yn ystod amseroedd da ac anodd - sgil go iawn i'w ddysgu wrth fynd i fyd y byd academaidd a gwaith.

**Kyle**, Discovery participant

Prosiect mor ddefnyddiol i fy merch a fi... Mae Darganfod wir yn ein helpu ni i baratoi.

Rhiant Darganfod.

Mae cael mynediad i'r prosiect Darganfod wedi bod yn amhrisiadwy i ni. Mae wedi bod yn groesawgar ac yn galonogol iawn i gael mynediad i'r safle'n raddol, felly ... ardderchog!

Rhiant Darganfod."

## Ymunodd pum cyfranogwr blaenorol Darganfod â Phrifysgol Caerdydd yn 2023.

### Ysgol Haf Darganfod

Ym mis Gorffennaf 2023, cwblhaodd 19 o bobl ifanc Ysgol Haf Darganfod. Adeiladodd yr Ysgol Haf sgiliau ymarferol gyda gweithgareddau a oedd yn efelychu bywyd yn y brifysgol. Creodd y cyfranogwyr gynlluniau prydau bwyd, gwneud siop fwyd, ac yna coginio eu prydau eu hunain mewn neuaddau prifysgol gyda llysgenhadon myfyrwyr a chyd-letywyr. Daeth yr Ysgol Haf i ben gyda 'Ffair Graddedigion', a fynychwyd gan sefydliadau gan gynnwys: Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru ac Awtistiaeth Cymru.




"Fy hoff ran o Ddarganfod oedd cael profiad o fywyd myfyrwyr oherwydd fy mod i bellach yn teimlo'n fwy parod ar gyfer y brifysgol ac yn dawelach fy meddwl y galla i lwyddo yno

**Sai,** cyfranogwr Ysgol Haf Darganfod.

Rwy'n fwy cyfforddus gyda'r syniad o fynd i'r brifysgol ac mae'r agwedd gymdeithasol ar fywyd prifysgol yn llai brawychus.

**Hannah**, cyfranogwr Ysgol Haf Darganfod."

Rwy'n deall sut beth fyddai bywyd myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd

| cyn | after |
|---|---|
| **50%** | **94%** |

Mae'r Ysgol Haf wedi rhoi profiad cadarnhaol o fywyd yn y brifysgol imi

**83%**

Rwy'n teimlo'n fwy parod i fyw'n annibynnol ar ôl yr ysgol haf

**72%**

Rwy'n poeni am 'ffitio i mewn' yn y brifysgol


| Cyn | after |
|---|---|
| **50%** | **28%** |

# Engage

## Prosiect profiad gwaith

Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 12 ddysgu am amrywiaeth y swyddi ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn ystod hanner tymor yr hydref, ymgymerodd disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o Ysgolion Uwchradd Fitzalan a Cathays â lleoliadau mewn adrannau gan gynnwys Gwasanaethau Llyfrgell, Dyfodol Myfyrwyr a'r Ysgol Cyfrifiadureg.



"Yn y dyfodol, rwy'n gobeithio bod yn astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rwy'n dyheu am raddio'n feddyg. Rwy'n gobeithio parhau i weld fy hun yn berson llwyddiannus, cwrtais a gofalgar.

Cyfranogwr Engage 2023

Rwyf nawr yn ystyried gwneud cwrs meistr ar seiber-ddiogelwch yn lle thermodynameg.

Cyfranogwr Engage 2023

Rwy'n meddwl ei bod yn fenter wych i gyflwyno mwy o bobl ifanc o gymunedau ethnig leiafrifol yn lleol i Brifysgol Caerdydd ac iddynt deimlo bod lle iddynt yma. Rwy'n meddwl bod llawer o le hefyd i ddysgu gan bobl ifanc a'u safbwyntiau a chymhwyso hyn i'n gwaith.

Mentor Engage 2023"

# Parent Power




Mae Parent Power Caerdydd, a gynhelir mewn partneriaeth â'r Brilliant Club, yn grymuso rhieni i sicrhau bod eu plant yn cyflawni eu potensial trwy ddatblygu sgiliau trefnu cymunedol a darparu cyngor ac arweiniad ar addysg uwch.

Rydym yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Uwchradd Willows.

"Fel tad na chafodd ei annog i fynd i'r brifysgol, rwy'n synnu'n fawr gyda'r cyfle hwn i fy mab, yn enwedig oherwydd bod ganddo ddiddordeb mawr mewn addysg a mynd ymhellach i'r brifysgol.

Mae Parent Power wedi bod yn anhygoel. Mae wedi rhoi'r hyder i mi ofyn y cwestiynau rwyf wastad wedi bod eisiau cael atebion iddynt ond rwyf wedi bod yn rhy nerfus i'w gofyn. Mae'r tîm yn sicr wedi ein gwneud yn gartrefol iawn ac wedi gwrando arnom a rhoi pwniad bach i ni i'r cyfeiriad cywir i wneud newidiadau ar gyfer yr heriau rydym yn eu hwynebu. Rydw i wir yn teimlo fy mod i'n rhan o gymuned o unigolion o'r un anian sydd i gyd eisiau cefnogi eu plant i gael mynediad i addysg uwch."

# Ymestyn yn Ehangach

Mae Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-ddwyrain Cymru yn rhaglen gydweithredol a arweinir gan dimau cyflenwi ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd.

## Oedolion

Mae ein rhaglen oedolion sy'n dysgu yn codi dyheadau addysgol oedolion 21 oed ac yn hŷn sydd heb unrhyw gymwysterau lefel pedwar. Rydym yn cyflwyno cyrsiau sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau, mewn cydweithrediad â phartneriaid cymunedol a thîm Dysgu Gydol Oes Prifysgol Caerdydd. Mae dysgwyr hefyd yn cael mynediad at sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Yn 2023, darparwyd dros 300 awr o ddysgu i 170 o oedolion sy'n dysgu, gyda chynnwys yn amrywio o sgiliau dehongli iaith a chynghori i ddatblygiad plant.



## Pobl ifanc

Mae 'Fi yn y Dyfodol' yn gyfres o weithdai rhyngweithiol ar gyfer disgyblion cyfnodau allweddol 3-5. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn ymweld â'r campws, i brofi bywyd prifysgol a chwrdd â myfyrwyr presennol.

Mae 'Llwybrau at Lwyddiant' yn darparu gweithdai pwnc-benodol mewn cydweithrediad ag ysgolion academaidd a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant. Yn 2023, cyflwynwyd gweithgareddau gyda chefnogaeth gan yr Ysgolion Ieithoedd Modern, y Gymraeg, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu; ac S4C.


| | |
|---|---|
| **7** | Nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn 2023 |
| **360** | Cyfranogwyr a gymerodd ran |
| **100+** | Nifer yr oriau o ymgysylltu a ddarparwyd |

## Priority Groups

Reaching Wider's Priority Groups include care experienced young people and young people who have caring responsibilities. 'Learn Your Way' introduces these young people to higher education and role models with similar lived experience. In 2023, we worked with 7 schools and community groups to deliver 68 sessions to 116 young carers and care experienced young people.

> Speaking to students who are young carers also made me realise I could go to uni too.
>
> Learn Your Way participant

> The Learn Your Way project has been an excellent experience for our young carers. All students feel they benefitted from the visit and feel more positive about their university aspirations.
>
> Teacher



# Cynllun Grantiau Bach

Mae'r prosiect hwn yn darparu cyllid i gefnogi ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd i ddatblygu a threialu gweithgareddau cyfnodau allweddol 3 a 4, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio eu hymchwil i ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf a'i hysbrydoli.

Dyfarnwyd pum grant i ymchwilwyr yn yr Ysgolion Biowyddorau, Meddygaeth, y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Ffiseg, a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Roedd y gweithgareddau a ddeilliodd o hyn yn cynnwys dros 1,500 o ddisgyblion mewn 12 ysgol ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys Academi Ofod a gweithdy ar gyfraith trosedd.



# Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgolion

Ar hyn o bryd, mae 115 o staff Prifysgol Caerdydd yn gwasanaethu fel llywodraethwyr ysgolion ac yn aelodau o'r Rhwydwaith Llywodraethwyr Ysgolion. Gyda'i gilydd yn 2023, gwirfoddolwyd 1,320 o ddiwrnodau fel Llywodraethwyr.

| Categori ysgol | Staff Prifysgol Caerdydd sy'n gwasanaethu fel llywodraethwyr |
|---|---|
| Cynradd | 69 |
| Cymunedol | 1 |
| Uwchradd | 36 |
| Coleg | 2 |
| Academi | 4 |
| Arall | 3 |
| **Cyfanswm** | **115** |

# Cynllun Grantiau Bach i Lywodraethwyr Ysgolion

Yn 2023, cafodd deg ysgol, lle mae staff Prifysgol Caerdydd yn llywodraethwyr ysgol, £500 yr un i ariannu gweithgareddau a fyddai o fudd i ddisgyblion â nodweddion WP.

**Roedd y cynllun yn ariannu mentrau a gefnogodd:**

- Arwain a rheoli'r ysgol
- Lles y staff a/neu'r disgyblion
- Cyflwyno'r cwricwlwm i Gymru newydd
- Adfer o darfu addysgol a chau'r bwlch cyrhaeddiad
- Datblygu sgiliau newydd a chefnogaeth i ddyheadau gyrfa
- Materion sy'n benodol i ysgolion sy'n effeithio ar addysgu a dysgu




# Sioe Deithiol AU

Mae'r Sioe Deithiol Addysg Uwch yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd..

Mae'r Sioe Deithiol yn teithio o gwmpas ysgolion uwchradd yng Nghymru i gefnogi disgyblion blynyddoedd 9, 10 ac 11 i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Yn 2023, roedd y sioe deithiol yn cynnwys sesiynau ar sgiliau astudio ac adolygu, rheoli iechyd meddwl a chyllidebu yn y brifysgol. Ymwelodd cyfranogwyr â'r campws ar Ddiwrnodau Ysbrydoli'r Brifysgol, i brofi bywyd fel myfyriwr trwy deithiau ar y campws a helfeydd sborion.




**54**
Nifer y sesiynau a gafodd eu cyflwyno

**19**
Nifer yr ysgolion a gymerodd ran

**3000**
Nifer y disgyblion a gafodd eu cynnwys




# Polisi derbyniadau cyd-destunol

Mae ein polisi derbyniadau cyd-destunol yn ystyried amgylchiadau unigol ymgeisydd wrth adolygu ei gais, ac yn aml, bydd yn arwain at roi cynnig llai i ymgeiswyr.

Er enghraifft, gallai ystod graddau o ABB-BBB ddod yn gynnig cyd-destunol o BBB. O dan y polisi, bydd pobl ifanc sydd wedi ymwneud â rhaglenni WP yn y ddwy flynedd cyn gwneud cais yn cael yr un ystyriaeth ag ymgeisydd cyd-destunol.

# Diwrnodau Agored

Mae tîm WP Prifysgol Caerdydd a staff Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd yn darparu sesiynau galw heibio i rannu gwybodaeth, mannau tawel a chyfleoedd un-i-un ar gyfer y rhai sy'n dod i Ddiwrnod Agored sydd wedi ymgysylltu â rhaglenni WP.

Darperir sesiynau un i un gyda'r Swyddog Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd ar gyfer ceiswyr lloches, dysgwyr â phrofiad o ofal, gofalwyr ifanc a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio.

# Ehangu Cyfranogiad yn yr ysgolion academaidd

Mae'r adran hon yn amlygu'r gwaith rhagorol o ran ehangu cyfranogiad gan gydweithwyr yn ysgolion academaidd Prifysgol Caerdydd.

## Mentora ITM

Mae Mentora ITM yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n annog pobl ifanc i fod yn effro i werth ieithoedd yn eu bywydau a'r manteision a ddaw yn eu sgil. Rydyn ni'n hyfforddi myfyrwyr prifysgol i fod yn fentoriaid iaith a diwylliant. Mae ein mentoriaid yn gweithio gyda dysgwyr ym mlynyddoedd 8 a 9 sydd wedi dweud yn flaenorol nad oes rhyw lawer o ddiddordeb ganddyn nhw mewn ieithoedd. Eu rôl yw ysbrydoli cariad at ddysgu iaith a chwilfrydedd rhyngddiwylliannol.

Ers 2015, mae'r prosiect wedi gweithio gyda 172 o ysgolion uwchradd ledled Cymru. Mae hynny'n golygu oddeutu 20,000 o ddysgwyr ac oddeutu 600 o fyfyrwyr prifysgol. Yn 2022-23, roedd 42% o'r rheiny a gafodd eu mentora wedi dewis astudio iaith yn bwnc TGAU, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 13%. Yn 2023-24, bydd y prosiect yn gweithio gyda 122 o ysgolion uwchradd, sef tua 66% o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru. Dilynwch Mentora ITM ar Twitter ac Instagram i ddysgu rhagor am y gwaith gwych mae ein mentoriaid yn ei wneud. Rydyn ni hefyd yn cyhoeddi cylchlythyr misol. Cliciwch yma i danysgrifo.



“

Fe wnes i fwynhau dysgu sut mae iaith cymaint yn fwy na'r geiriau rydyn ni'n eu siarad yn unig a sut mae'n cysylltu â llawer o bethau diwylliannol.

Dysgwr, 2023

Llwyddais i dynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd... rhywbeth roedd nifer o'r dysgwyr ddim wedi meddwl amdani erioed o'r blaen. Rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd!

Mentor, 2023

Roedd yn bleser pur gweithio gyda [ein mentor] eleni, roedd hi'n boblogaidd iawn gyda'r disgyblion hefyd, yn gymaint o ysbrydoliaeth.

Athro dosbarth, 2023

”

## Mentora Caru Darllen

'Mae 'Mentora Caru Darllen' yn brosiect peilot blwyddyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei ddarparu ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Ei nod yw ysbrydoli dysgwyr 9-11 oed i ddod o hyd i'w cariad at ddarllen, trwy leoli mentoriaid sy'n fyfyrwyr prifysgol mewn ysgolion cynradd i gyflwyno gweithgareddau llythrennedd cyffrous a diddorol i grwpiau bach. Mae 'Mentora Caru Darllen' bellach wedi cael ei gynnal mewn 12 ysgol gynradd i dros 200 o ddysgwyr. Ar ddechrau'r prosiect, datgelodd arolwg ar agweddau darllen dysgwyr nad oedd 22% o'r ymatebwyr yn darllen y tu allan i'r ysgol, a dim ond 13% oedd yn darllen unwaith yr wythnos. Y gobaith yw y bydd y prosiect mentora ac agweddau calonogol y myfyrwyr yn cael effaith gadarnhaol ar gymhelliant a hyder dysgwyr i ddarllen er pleser.

MENTORA
CARU
DARLLEN
LOVE
READING
MENTORING







“

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gyffrous iawn am y prosiect. Roedden nhw'n arbennig o awyddus i enwi eu ffrindiau darllen a siarad am y llyfrau maen nhw'n eu darllen ar hyn o bryd yn yr ysgol. Yn bennaf, roedden nhw'n gyffrous i ddysgu mwy amdanaf i a fy amser yn y brifysgol.

Mentor Caru Darllen, 2023

”

## Mentora Ffiseg

Mae'r Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth yn cynnal 'Mentora Ffiseg', a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Wrecsam a Phrifysgol De Cymru. Credwn fod ffiseg yn berthnasol i fywyd pawb ac y dylai fod ar gael i bawb sy'n dymuno ymwneud â hi.

Rydym yn hyfforddi myfyrwyr prifysgol i fod yn Fentoriaid Ffiseg i ddisgyblion ysgol uwchradd, i annog brwdfrydedd mewn disgyblion am ffiseg drwy drin a thrafod ei berthnasedd mewn bywyd bob dydd a'r sgiliau y gallant eu datblygu yn sgil cymhwyster ffiseg ôl-16.



**Ers cychwyn y prosiect yn 2019, rydym wedi hyfforddi 268 o fentoriaid gan groesawu 28 o ysgolion yng nghylch yr Hydref 2023.**









## Prosiect PACE

Sefydlwyd Hyrwyddo Rhagoriaeth Academaidd a Chymunedol (PACE) yn 2018 i ysbrydoli disgyblion Caerdydd ym mlynyddoedd 9, 10 ac 11 i ystyried astudio yn y Brifysgol ac, yn 2023, ymunodd mwy na 90 o ddisgyblion â'r prosiect. Mae PACE yn cynnal sesiynau wythnosol i gyfoethogi cwricwlwm gwyddoniaeth ac ar y diwedd mae Ysgol Haf pan fydd y disgyblion yn ymgymryd â thri senario meddygol gan gynnwys argyfwng meddygol. Roedd adborth y disgyblion yn dangos eu bod wedi mwynhau "dysgu gyda ffrindiau" a "chwrdd â myfyrwyr prifysgol yn ogystal â dysgu am fyd meddygaeth".







# Llysgenhadon Myfyrwyr a Myfyrwyr sy'n Interniaid

Mae Llysgenhadon Myfyrwyr yn chwarae rhan annatod yn ein rhaglenni trwy ddarparu modelau rôl i bobl ifanc sydd â diddordebau a phrofiadau byw tebyg.

Mae Llysgenhadon Myfyrwyr yn rhannu mewnwelediad i sut beth yw bod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, i sicrhau y gall cyfranogwyr y rhaglen wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.
Mae bod yn Llysgennad Myfyrwyr yn rhoi cyfle i fyfyrwyr presennol feithrin sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys gwaith tîm, cyfathrebu a sgiliau arwain.

Yn 2023, cyflogodd tîm WP 143 o Lysgenhadon Myfyrwyr ar ein rhaglenni.



"Mae gweithio ar y prosiectau wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau arwain a'm hyder drwy gwrdd â chymaint o wahanol bobl, a gall y gwaith fod yn gymaint o hwyl. Roedd gweithio ar yr ysgolion haf yn brofiad craff iawn; roeddent yn rhoi boddhad i mi oherwydd bod yr ystod eang o weithgareddau a sesiynau a oedd ar gael yn golygu y gallai cyfranogwyr brofi a dysgu llawer a gwelais y cyfranogwyr yn mynd yn fwy hyderus. Mae gen i lawer o hoff atgofion o'r rhaglenni, ond un nodedig yw pan gawson ni dasg coginio ar y Prosiect Darganfod. Roedd yn galonogol gweld pawb yn cydweithio."

**Holly**, Llysgennad Myfyrwyr 2023

"Mae bod yn llysgennad myfyrwyr wedi helpu i ddatblygu fy nghymeriad a'm sgiliau mewn sawl ffordd. Rwyf bob amser wedi mwynhau rhyngweithio â phobl, ond mae'r rôl hon wedi fy helpu i fynd y tu hwnt i'r hyn oedd yn gyfforddus i mi. Rwyf bellach yn fwy hyblyg yn fy agwedd at dasgau mewn bywyd gan fy mod wedi dysgu na fydd pethau bob amser yn mynd yn ôl y cynllun.

Yn ystod yr ysgol haf, cawsom sesiwn y disgwylid y byddai'n cael ei chanslo. Yn hytrach na gadael iddo fod, cefais y cyfle i roi sesiwn ryngweithiol i'r myfyrwyr, a oedd yn gofyn am wneud penderfyniadau cyflym a syniadau yn y fan a'r lle, gan arwain tîm i helpu i ddarparu hyn. Roedd hyn wedi cynyddu fy hyder trwy wybod, hyd yn oed os yw'r anrhagweladwy yn digwydd, y gallaf ddarganfod fy ffordd allan ohono o hyd.

Dysgais hefyd ei fod yn ymwneud â chymryd eiliad i fyfyrio a bod yn agored i roi cynnig ar bethau newydd, rhywbeth rwy'n parhau i'w roi ar waith yn fy mywyd."

Rabaa, Llysgennad Myfyrwyr 2023



"Mae bod yn llysgennad i dîm WP wedi bod yn fraint llwyr ac yn un o uchafbwyntiau fy mhrofiad prifysgol cyffredinol. Mae llysgenhadaeth WP wedi fy ngalluogi i adeiladu fy sgiliau cyfathrebu ac arwain ac mae pob un ohonynt wedi trosglwyddo i fy ngwaith clinigol fel radiograffydd dan hyfforddiant."

**Safa**, 2023 Llysgennad Myfyrwyr



“Drwy WP, rydw i wedi cyfarfod ag ystod amrywiol o bobl ifanc sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw i gael mynediad i addysg uwch. Boed yn fater o fynd i’r afael â mythau am brifysgolion, rhannu fy angerdd am fy nghwrs, neu weithio drwy broblemau damcaniaethol y gallai myfyriwr eu hwynebu, rwy’n mwynhau gweld hyder a dyheadau pobl ifanc yn tyfu. Wedi bod yn eu sefyllfa ar un adeg, mae’n swydd hynod foddhaol ac amrywiol.”

**Praveena**, Llysgennad Myfyrwyr 2023 a chyn-gyfranogwr o raglen WP.

“Mae gweithio ar y rhaglenni hyn wedi bod yn brofiad hynod werth chweil i mi, yn enwedig pan fyddaf yn gweld myfyrwyr, a allai fod wedi cael eu hanwybyddu fel arall, yn cael mynediad i addysg uwch ac yn dilyn eu breuddwydion. Mae’r profiad hwn nid yn unig wedi ailddatgan fy nghred yng ngrym addysg fel cyfartalwr gwych ond hefyd wedi fy ysbrydoli i barhau i weithio tuag at gymdeithas fwy cynhwysol.”

**Darshan**, Llysgennad Myfyrwyr 2023



## Interniaid

Eleni, croesawodd tîm WP intern sy’n fyfyriwr yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol. Bob blwyddyn, mae myfyrwyr y gwyddorau cymdeithasol yn cwblhau modiwl ‘byd go iawn’, lle maent yn cymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn cyd-destunau byd go iawn.

“Nid yn unig y gwnes i fwynhau ymgymryd â’r interniaeth Ymchwil a Gwerthuso hon gyda’r tîm gwych, roedd hefyd yn rhoi profiadau gwerthfawr i mi ddatblygu rhai sgiliau trosglwyddadwy allweddol ar gyfer fy astudiaethau yn y brifysgol”

**Steve**, Intern Ymchwil a Gwerthuso 2023



“Cefnogwyd ysgolion haf eleni hefyd gan intern Cyfryngau Cymdeithasol a rannodd: “Trwy’r interniaeth hon, fe wnes i fagu hyder, gallu gwell i addasu i sefyllfaoedd sy’n newid yn gyflym a gwerthfawrogiad cynyddol am y gwaith anhygoel y mae’r adran yn ei wneud. Roedd yn foddhaus iawn gweithio gydag ystod eang o bobl drwy gydol y mis a chyfrannu at waith yr ysgolion haf.”

**Manu**, 2023
Intern Cyfryngau Cymdeithasol

# Datblygiadau ar y gweill

Yn 2024, bydd tîm WP yn cyflwyno gweithgarwch newydd i gefnogi ein grwpiau blaenoriaeth.

## Dyfodol Hyderus

Bydd y prosiect hwn yn cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, sydd wedi ymddieithrio, wedi'u mabwysiadu a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Bydd cymorth yn cael ei gynnig i bobl ifanc yn eu colegau a'u hysgolion a dilynir hynny gan ymweliadau â'r campws.

## Dysgwyr Aeddfed

Bydd y tîm WP yn cefnogi'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer myfyrwyr aeddfed ac yn gweithio ar draws y Brifysgol i sicrhau bod ein dysgwyr aeddfed yn mwynhau ymdeimlad o gymuned.

## Profiad Milwrol

Yn 2024 byddwn yn cynnig ymweliad campws i ddysgwyr â phrofiad Milwrol, ac yn gweithio gydag elusennau a sefydliadau i annog y rhai sy'n dychwelyd o ddyletswydd i ddychwelyd i addysg.

## Rhwydwaith WP

Yn 2024, byddwn yn ail-lansio Rhwydwaith WP i gydweithio a chefnogi cydweithwyr sy'n cyflawni gweithgarwch WP ar draws y brifysgol. Byddwn yn archwilio'r awydd am rwydwaith o'r fath trwy gydweithio â'r tîm Cenhadaeth Ddinesig ac ymuno â gweithgor Rhwydwaith Ymgysylltu Prifysgol Caerdydd.





# Myfyrdodau

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn hynod lwyddiannus i WP ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym wedi ehangu ein gweithgarwch i gynnwys mwy o feysydd pwnc a grwpiau blaenoriaeth.

Rydym wedi dychwelyd yn hapus i gyflwyno wyneb yn wyneb, i ganiatáu i'n cyfranogwyr fwynhau bywyd ar y campws; tra'n cadw buddion rhywfaint o ddarpariaeth ar-lein. Wrth symud ymlaen, rydym yn ceisio gwella ein gwaith gwerthuso, asesu effaith a thargedu; i sicrhau bod ein gweithgarwch yn cefnogi'r grwpiau hynny sydd â'r angen mwyaf am ein help, a hynny yn y ffordd orau.









**Cydgerddded gyda'n gilydd**
caerdydd.ac.uk